WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

# Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Cyhoeddwyd:** Mehefin 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 374A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar KPMG, Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 10 |
| Mae cyflawni arbedion cost cylchol yn her, fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn cyflawni balans ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12 | 10 |
| Mae gwaith perfformiad Asesiad Strwythuredig 2011 yn mynd rhagddo, ac mae canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod cynnydd cadarnhaol cyffredinol wedi'i wneud er bod rhai heriau o hyd | 11 |
| Er bod diffygion sylweddol yn y broses gaffael ar gyfer ambiwlansys newydd, ni fu unrhyw effaith ar wasanaethau i'r cyhoedd ac mae rheolwyr yn gwneud gwelliannau i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd | 12 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 13 |
| Ffi archwilio | 14 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2011.

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**3.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**4.** Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

**5.** Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny a rhoddwyd mwy o fanylion arnynt yn yr adroddiad ISA 260 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2011. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- Targedau ariannol allweddol
- Perfformiad ariannol 2010-11
- Addasiadau cyfnod blaenorol
- Trosi benthyciad byrdymor yn Gyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC)
- Asedau sefydlog - cyfalafu cyflogau
- Addasiadau o ran cyflwyniad a naratif
- Datganiad am Reolaeth Fewnol
- Adroddiad Cydnabyddiaeth
- Rheolaethau Cyffredinol TG
- Y Bartneriaeth Cefnogi Busnes

**6.** Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:

- paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir mewn ffyrdd perthnasol;
- roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; ac
- roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.

7. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth falans ariannol ar ddiwedd 2010-11. Y targed ar gyfer arbedion rhyddhau arian parod yn ystod y flwyddyn oedd £8.9 miliwn a chyflawnwyd £8.3 miliwn ohono. Fodd bynnag, cyflawnwyd £3.1 miliwn o'r arbedion hyn drwy gynlluniau arbedion anghylchol (incwm anghylchol o £2 filiwn ar gyfer oedi o ran amseroedd gweithredu ysbytai i wneud iawn am faterion mewn ysbytai a oedd yn atal yr Ymddiriedolaeth rhag cyflawni arbedion effeithlonrwydd a nodwyd drwy leihau amseroedd trosglwyddo mewn ysbytai a £1.1 miliwn o arbedion anghylchol yn ymwneud â chynnwys eitemau stoc ar y Fantolen, a gostiwyd yn flaenorol). Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd angen iddi barhau i nodi a chyflawni arbedion cost ac effeithlonrwydd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

8. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd o agweddau penodol ar y gwasanaethau a ddarperir gan gynnwys Gofal heb ei Drefnu. Oherwydd oedi cyn cael dogfennaeth archwilio mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a chyflwynir adroddiad arno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2012. Mae'r gwaith a wnaed hyd yma wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae cyflawni arbedion cost cylchol yn her, fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn cyflawni balans ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12;
- mae gwaith perfformiad Asesiad Strwythuredig 2011 yn mynd rhagddo ac mae canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod cynnydd cadarnhaol cyffredinol wedi'i wneud, er bod rhai heriau o hyd; ac
- er bod diffygion sylweddol yn y broses gaffael ar gyfer ambiwlansys newydd ni fu unrhyw effaith ar wasanaethau i'r cyhoedd, ac mae rheolwyr yn gwneud gwelliannau i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

9. Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r rheolwyr. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 22 Chwefror 2012. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn Fwrdd yr Ymddiriedolaeth i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

10. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**11.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Ionawr 2012, ac mae'r Asesiad Strwythuredig a'r gwaith ar ofal heb ei drefnu yn mynd rhagddynt o hyd a chyflwynir adroddiad arnynt i aelodau ar ôl eu cwblhau.

**12.** Ymgymeraf â'm gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a
- **c)** bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**13.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth, llywodraethu ac atebolrwydd ariannol, a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**14.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**15.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**16.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**17.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2010-11. Drwy'r datganiadau hyn mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ei ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r broses o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**18.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**19.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**20.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth; a
- systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir mewn ffyrdd perthnasol

**21.** Nid oes gennym bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu na'ch adroddiadau ariannol. Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad fod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

22. Ni ddaethom ar draws anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad ac eithrio'r Stocrestrau. Bu oedi cyn cael y wybodaeth a oedd yn ofynnol i archwilio balans y stoc, a gallai'r wybodaeth fod wedi cael ei pharatoi mewn ffordd fwy cydlynol. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r tîm archwilio dreulio amser ychwanegol ar yr archwiliad o stocrestrau. Deellir bod yr oedi hwn o ganlyniad i'r ffaith mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i falans y stocrestrau gael ei archwilio ac eir i'r afael â hyn mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni bellach.

23. Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 24 Mai 2011. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged o ran mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ac mae cynlluniau arbedion ar waith ar gyfer y dyfodol. | Cyflawnwyd £8.7 miliwn o'r £9 miliwn o arbedion targed a nodwyd. Cyflawnwyd £2.7 miliwn o'r arbedion hyn drwy gynlluniau arbedion anghylchol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol y bydd angen iddi gynhyrchu arbedion cylchol pellach yn y dyfodol. |
| Nid oes unrhyw brawf Adfer ar ôl Trychineb ar gyfer TG wedi cael ei gynnal o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf 2010-11. | Pe bai trychineb ar unrhyw un o safleoedd yr Ymddiriedolaeth ni fyddai unrhyw ffordd o sicrhau bod systemau'n parhau i weithio heb unrhyw achos o darfu arnynt. Gallai hyn arwain at broblemau difrifol o ran sicrhau bod systemau'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod ar-lein a bod yr Ymddiriedolaeth yn gallu darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar y lefelau gofynnol. Gall hyn hefyd arwain at golli data mewn safleoedd, a all hefyd arwain at anawsterau yn ddiweddarach os bydd y cyhoedd yn gofyn am unrhyw ddata. |
| Nid oes unrhyw ofynion o ran hanes na chymhlethdod cyfrineiriau o fewn ffurfweddiad cyfrineiriau y System Gorchymyn a Rheoli. | Mae cyfrineiriau syml, ac na chânt eu newid yn aml, yn haws eu dyfalu/torri - ac maent yn fwy tebygol o fod yn hysbys i eraill gydag amser.<br>Dylid hefyd nodi, ar sail gwaith adolygu, fod paramedrau cyfrineiriau rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth hefyd yn wan a bod y gofynion o ran hanes yn gyfyngedig ac nad oedd unrhyw ofynion o ran cymhlethdod wedi eu rhoi ar waith. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
| --- | --- |
| Nid oedd methodoleg systematig na safonol yn cael ei defnyddio i brisio stocrestrau a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth, ac roedd dulliau gweithredu gwahanol yn cael eu defnyddio ar safleoedd gwahanol. Dylai aelod annibynnol o staff gyfrif stoc yn gyson ar bob safle neu dylid cynnal archwiliad mewnol i sicrhau bod y stocrestrau yn cael eu rheoli'n briodol. | Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymdrin â hyn ar gyfer 2011-12, drwy gyflwyno methodoleg safonol ffurfiol. |
| Nid oedd unrhyw weithdrefnau ffurfiol ar waith i staff ambiwlans gyfnewid cyffuriau a chyfarpar meddygol traul penodol sy'n dod i ddiwedd ei gyfnod silff ag ysbytai. Deallwn fod staff ambiwlans yn cynnal yr adolygiadau hyn bob dydd. | Mae perygl y caiff stoc ei rheoli'n aneffeithiol a fydd yn arwain at ddileu stoc os na chaiff y broses ei ffurfioli. Deallwn fod polisi ffurfiol wedi cael ei roi ar waith i sicrhau bod pob eitem o'r fath a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth yn cael ei hadolygu'n gyson a bod cytundeb ffurfiol â Byrddau Iechyd wedi cael ei roi ar waith. |

### Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, ac roedd systemau ariannol a chyfrifyddu sylweddol yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad

**24.** Ystyriwyd rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio i roi sicrwydd digonol a fyddai'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fynegi barn ar wirionedd a thegwch y datganiadau ariannol. Ni chawsant eu hystyried at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth fewnol.
Ni nodwyd unrhyw ddiffygion sylweddol.

### Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2010-11, ond dim ond o ganlyniad i gyllid anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a throsglwyddo stocrestrau i'r Fantolen

**25.** Ar ddechrau'r flwyddyn pennodd yr Ymddiriedolaeth darged cynllun arbedion o £8.9 miliwn i bontio'r bwlch ariannu ac mae £8.3 miliwn ohono wedi ei gyflawni. Mae hyn, ynghyd ag arbedion eraill yn ystod y flwyddyn a gyflawnwyd drwy reolaeth gyllidebol,

yn golygu bod yr Ymddiriedolaeth wedi cofnodi gwarged fach ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff cyllidebau a chynlluniau yn erbyn cynlluniau arbedion eu monitro'n agos drwy gydol y flwyddyn.

**26.** Yn ystod y flwyddyn, cafwyd £2 filiwn o gyllid anghylchol ychwanegol i wneud iawn am faterion mewn ysbytai a oedd yn atal yr Ymddiriedolaeth rhag cyflawni arbedion effeithlonrwydd a nodwyd drwy leihau amseroedd trosglwyddo mewn ysbytai. Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl ymgorffori hyn yn y dyfodol, gan gynyddu'r pwysau ar adnoddau ac effeithlonrwydd.

**27.** Effaith trosglwyddo stoc i'r fantolen, a gostiwyd yn flaenorol, oedd £1.1 miliwn. Mae arbedion eraill mwy o faint a gyflawnwyd yn cynnwys arbedion rheoli trosiant staff Galw Iechyd Cymru o £0.7 miliwn (yn erbyn targed o £0.4 miliwn), arbedion gwyliau blynyddol Agenda ar gyfer Newid o £0.4 miliwn (targed: £Dim) ac arbedion TGCh o £1 filiwn (targed: £0.8 miliwn). Cyflawnwyd targedau rheoli swyddi gwag i raddau helaeth.

**28.** Mae rheoli absenoldeb oherwydd salwch wedi bod yn llai llwyddiannus ac ni chyrhaeddwyd targedau arbedion (£0.7 miliwn) yn ymwneud ag absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd gweithgareddau a mentrau i leihau lefelau salwch yn cymryd amser ac nad oes ateb cyflym.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**29.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael â'r 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd gennym yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd.

**30.** Mae'r gwaith yn y meysydd canlynol yn mynd rhagddo o hyd a chaiff adroddiadau ar ganfyddiadau eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau :

- asesu i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu ei threfniadau er mwyn cyfrannu'n effeithiol at welliannau parhaol mewn gwasanaethau gofal heb ei drefnu ledled Cymru; ac
- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau data o safon dda.

## Mae cyflawni arbedion cost cylchol yn her, fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn cyflawni balans ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12

**31.** Mae rheolwyr yn hyderus y caiff y gyllideb ei mantoli erbyn diwedd 2011-12. Caiff y targed arbedion allweddol ar gyfer 2011-12 ei gyflawni'n bennaf drwy welliannau mewn cynhyrchiant gan gynnwys rheoli salwch a goramser. Ym mis 9, roedd £4.8 miliwn o'r £5.5 miliwn o arbedion arfaethedig wedi cael ei gyflawni. Caiff cyllidebau, gwariant a chynnydd yn erbyn targedau arbedion eu monitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn. Ymhlith y pwyntiau allweddol mae'r canlynol:

- dim ond £0.65 miliwn o'r arbedion targed cynhyrchiant o £2.6 miliwn oedd wedi cael ei gyflawni;
- mae'r targed rheoli a dileu swyddi gwag o £1.4 miliwn eisoes wedi cael ei gyflawni i raddau helaeth; a
- rhagorwyd ar y targedau a chyflawnwyd arbedion o £0.6 miliwn mewn TGCh a £0.5 miliwn o ran y Tîm Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus (HART).

**32.** Mae cynlluniau arbedion SCEP ar gyfer 2011 a 2012 wedi canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau 'cynnal a chadw' lefel is, er enghraifft, rheoli swyddi gwag ac absenoldeb oherwydd salwch. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynlluniau rheolaeth ariannol canolig a thymor hwy mwy ffurfiol sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol er mwyn cyflawni targedau effeithlonrwydd a chefnogi'r agenda foderneiddio.

**33.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod cynlluniau gweithlu a gweithredol yn allweddol i gyflawni ei hamcanion strategol ac wrth iddynt gael eu hymgorffori dylai cynhyrchiant gynyddu, ond mae hyn yn cymryd amser ac felly mae dibyniaeth o hyd ar yr adeg hon ar reoli swyddi gwag a phrosiectau llai i gyflawni targedau effeithlonrwydd.

**34.** Cefnogir y Cynllun Datblygu Blynyddol gan gynlluniau'r cyfarwyddiaethau unigol. Nodwyd rhai meysydd o arfer da gyda chysylltiadau pendant rhwng cynlluniau ac amcanion strategol ynghyd â chrynodeb o'r cynlluniau gwella costau sydd ar waith i bontio'r bwlch ariannu. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn arfer safonol ym mhob cyfarwyddiaeth ac mewn rhai achosion nid oes fawr ddim gwybodaeth ariannol am oblygiadau ariannol cynlluniau na phwysau o ran costau. Yn y dyfodol dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cynlluniau busnes a chyllidebau yn cael eu hintegreiddio'n well.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad ar yr asesiad strwythuredig a gofal heb ei drefnu yn mynd rhagddo ac mae canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod rhai heriau o hyd er i gynnydd cadarnhaol cyffredinol gael ei wneud

**35.** Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'm gwaith hyd yma yn awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth weithredu *Cydweithio i Lwyddo* ynghyd â chyflwyno'r Model Ymateb Clinigol newydd ym mis Rhagfyr 2011.

Fodd bynnag, mae heriau'n wynebu'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â morâl staff, cysylltiadau a chynllunio'r gweithlu, y bydd angen eu goresgyn i sicrhau y bodlonir amcanion strategol.

**36.** Mae'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ar fy ngwaith yn 2011 ar yr Asesiad Strwythuredig a gofal heb ei drefnu wedi cael ei oedi o ganlyniad i broblemau a gafodd fy nhîm wrth dderbyn y data a'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt i ategu ei waith. Yn y dyfodol, bydd angen i reolwyr ymateb yn fwy prydlon i geisiadau am archwilio perfformiad er mwyn sicrhau bod negeseuon fy adroddiadau yn parhau i fod yn gyfredol ac o werth i'r Ymddiriedolaeth.

## Er bod diffygion sylweddol yn y broses gaffael ar gyfer ambiwlansys newydd, ni fu unrhyw effaith ar wasanaethau i'r cyhoedd, ac mae rheolwyr yn gwneud gwelliannau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd

**37.** Mewn ymateb i gais gan y tîm rheoli, cynhaliais waith archwilio ychwanegol yn cynnwys adolygu'r gwaith o gaffael 42 o ambiwlansys wedi'u haddasu.

**38.** Cafodd y prif faterion a nodwyd ar adeg fy adroddiad eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2011 ac fe'u nodir isod. Mae rheolwyr yn gwneud gwelliannau i fynd i'r afael â'r materion ar gyfer 2012:

- Ni ddilynwyd y broses gaffael briodol - Ar sawl achlysur, ni ddilynwyd y broses gaffael ac ni chymerwyd camau gweithredu yn unol â gweithdrefnau a rheolaethau cofnodedig y sefydliad.
- Cafodd trosiant sylweddol ar lefel bwrdd effaith negyddol ar y broses gaffael - Mae diffyg parhad ar lefel bwrdd ar gyfer fflyd a throsiant uchel cyffredinol ar draws lefel bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi arwain at amgylchedd lle nad yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am benderfyniadau a lle nad yw'r uwch reolwyr bob amser o'r farn mai eu cyfrifoldeb hwy yw herio'r broses a ddilynwyd.
- Ni fabwysiadwyd prosesau rheoli prosiect ffurfiol - Amlygodd adroddiadau blaenorol yr angen i reoli prosesau caffael fflyd gan ddefnyddio prosesau rheoli prosiect ffurfiol. O gofio natur risg uchel y broses gaffael hon, o ran ei gwerth a'i chymhlethdod, dylai fod wedi bod yn ofynnol rhoi gweithdrefnau rheoli prosiect ar waith mewn perthynas â'r ymarfer.
- Roedd gwendidau o ran rheoli risg mewn rhai meysydd - Roedd nifer o gyfleoedd yn ystod y broses lle dylid, o gofio'r amgylchiadau, fod wedi ystyried y risg a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect ac absenoldebau staff allweddol penodol a lle dylid bod wedi gwneud rhagor o ymdrech i liniaru'r risg.

**39.** Mae rheolwyr wedi cyflwyno nifer o gamau i fynd i'r afael â'r materion hyn gan gynnwys sefydlu bwrdd caffael gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r Ymddiriedolaeth i reoli a monitro proses gaffael 2011-12, a deallwn fod yr uned archwilio mewnol yn bwriadu gwneud gwaith dilynol ar yr adroddiad hwn yn 2011-12.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol | 24 Mai 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 7 Mehefin 2011 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Gronfeydd Ariannol a ddelir mewn Ymddiriedolaeth | 10 Medi 2011 |
| Barn ar y Cronfeydd Ariannol a ddelir mewn Ymddiriedolaeth | 21 Hydref 2011 |
| Barn ar Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan | 28 Mehefin 2011 |
| Barn ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol Cryno | 21 Hydref 2011 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 | Ionawr 2011 a Mai 2011 |
| Adolygiad o'r Tendr Caffael | Medi 2011 |

Hefyd mae dau archwiliad o berfformiad yn mynd rhagddynt o hyd yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Asesiad Strwythuredig 2011 | Ebrill 2012 |
| Gofal heb ei drefnu | Ebrill 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011 y ffi archwilio arfaethedig o £116,780 (heb gynnwys TAW). Mae'r ffi wirioneddol yn unol â'r cynnig hwn o £116,780 (heb gynnwys TAW). Roedd yr adolygiad caffael yn ddarn ychwanegol o waith y gofynnodd y rheolwyr amdano a gostiodd £21,000 arall (heb gynnwys TAW).

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk